# Pecyn Clirio £3,000 PDC 2026

## Telerau ac Amodau

Mae'r cynnig Pecyn Clirio hwn yn  cael ei wneud gan Brifysgol De Cymru, Llantwit Road, Trefforest, Pontypridd CF37 1DL, Adran Myfyrwyr y Dyfodol, y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "**y Brifysgol**").

### 1. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y Pecyn Clirio

Mae Pecyn Clirio PDC 2026 yn cynnig y canlynol i ymgeiswyr cymwys:

(A.) buddion gwarantedig sy'n cynnwys gliniadur am ddim a £200 mewn talebau arlwyo campws; a

(B.) budd ychwanegol cyfyngedig i'r 150 o ymgeiswyr cymwys cyntaf, sef gostyngiad o £1,500 ar gyfer Llety yn Llys Morgannwg y Brifysgol (yn amodol ar delerau lletya).

### 2. Cyfnod y Pecyn Clirio

Mae cynnig y Pecyn Clirio yn agor ar 2 Gorffennaf 2026 ac yn cau ar 11 Medi 2026 ("Cyfnod y Pecyn Clirio").

### 3. Pwy all wneud cais

I fod yn gymwys, mae'n rhaid eich bod:

- Yn gwneud cais i'r Brifysgol i astudio fel myfyriwr israddedig llawn amser newydd (Blwyddyn 0 neu Flwyddyn 1) yn ystod Clirio 2026 a chyn i gyfnod y cynnig ddod i ben (Gweithredol o 2 Gorffennaf 2026 tan 11 Medi 2026);
- Yn gymwys ar gyfer statws ffioedd dysgu cartref y DU;
- Yn gwneud cais i astudio ar un o gampysau'r Brifysgol;
- Yn bodloni amodau eich cynnig Prifysgol;
- Yn cwblhau proses gofrestru'r Brifysgol ar gyfer mynediad ym Medi 2026.

I fod yn gymwys ar gyfer y Gostyngiad Llety, rhaid i chi:

- Fodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod;
- Derbyn y cynnig o ystafell sengl safonol ar gyfer lletya yn Llys Morgannwg y Brifysgol;
- Ymrwymo i gontract llety Llys Morgannwg ar gyfer y tymor academaidd fydd yn dechrau ym mis Medi 2026.

Nid yw ymgeiswyr **yn** gymwys os ydyn nhw'n:

- tynnu'n ôl o gynnig sydd eisoes wedi'i wneud gan y Brifysgol ac yn ailymgeisio yn ystod Clirio;
- meddu ar gynigion diamod neu amodol gan y Brifysgol (gan gynnwys cynigion cadarn neu yswiriant (2il ddewis)

Mae cymhwysedd yn amodol ar y Brifysgol yn dilysu eich sefyllfa.

Mae’r buddion i gyd yn rhai na ellir eu trosglwyddo, nid oes modd eu huwchraddio na'u cyfnewid, ac nid oes ganddynt werth o ran arian parod neu fargeinio.

### 4. Sut mae'r pecyn clirio'n gweithio

Nid oes angen i chi roi unrhyw gamau ychwanegol ar waith.

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac yn gwneud cais i'r Brifysgol yn ystod Cyfnod y Pecyn Clirio:

- Byddwch yn derbyn y buddion gwarantedig ar ôl cofrestru; ac
- Efallai y byddwch hefyd yn derbyn y gostyngiad ar gyfer llety (yn amodol ar fodloni'r meini prawf a nodir isod).

Sut mae'n gweithio – crynodeb o'r camau

- Gwneud cais i'r Brifysgol yn ystod Cyfnod y Pecyn Clirio;
- Bodloni’r meini prawf cymhwysedd a derbyn y cynnig;
- Gwneud cais am lety (os yw'n berthnasol) yn Llys Morgannwg y Brifysgol Gwneud cais am lety - Prifysgol De Cymru;
- Cofrestru’n llawn ar gyfer mynediad Medi 2026;
- Derbyn eich buddion ar ôl cofrestru a gwiriadau.

### Gostyngiad Llety - yr hyn y gallech ei dderbyn

Bydd y 150 cyntaf o ymgeiswyr cymwys yn derbyn gostyngiad o £1,500 ar lety Prifysgol Llys Morgannwg ar gyfer eu blwyddyn astudio gyntaf.

Mae o leiaf 150 o gyfleoedd ar gael ar gyfer gostyngiad llety. Gellir dyfarnu gostyngiadau llety ychwanegol yn ôl disgresiwn y Brifysgol, ond ni ddylai ymgeiswyr dybio y bydd gostyngiadau ychwanegol yn sicr o gael eu dyfarnu. Mae'r budd cyfyngedig hwn yn rhan o'r Pecyn Clirio ond dim ond i ymgeiswyr sy'n ymrwymo i gytundeb llety ar wahân gyda'r Brifysgol y mae ar gael, a’r cytundeb hwnnw fydd yn goruchwylio eich rhwymedigaethau o ran llety a thalu am lety.

### Manylion y Llety

Llys Morgannwg (Campws Trefforest)

Ystafell sengl safonol (ystafell wlyb en-suite)

Tua £117 yr wythnos, contract 40 wythnos

**Amodau Pwysig:** Mae'r gostyngiad llety yn berthnasol i ystafell sengl safonol yn Llys Morgannwg (campws Trefforest) a bydd yn cael ei ddefnyddio i leihau'r ffioedd sy'n daladwy o dan y contract llety. Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau hyn a'r cytundeb llety, bydd y cytundeb llety yn cael blaenoriaeth o ran materion yn ymwneud â llety.

**Bwrsariaethau teithio (lle bo'n berthnasol):** Os yw ymgeisydd yn astudio ar gampws Caerdydd neu Gasnewydd ac yn dewis byw yn Llys Morgannwg (campws Trefforest), efallai y bydd hefyd yn gymwys i gael Bwrsariaeth Costau Teithio Myfyrwyr y Brifysgol, yn amodol ar delerau ac amodau penodol ar gyfer y fwrsariaeth honno, sydd i'w gweld yma: [https://www.southwales.ac.uk/cy/bywyd-myfyrwyr/llety/telerau-ac-amodau-bwrsariaeth-llety/](https://www.southwales.ac.uk/cy/bywyd-myfyrwyr/llety/telerau-ac-amodau-bwrsariaeth-llety/).

Nid yw'r fwrsariaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio ar gampysau Trefforest, Glyn-taf a Pharc Chwaraeon PDC.

## Sut bydd y gostyngiad llety yn cael ei ddarparu

Bydd ein cais safonol am lety yn berthnasol i'r cynnig hwn. Ar ôl derbyn eich cynnig Clirio, byddwn yn anfon e-bost atoch gyda manylion ynghylch sut i wneud cais am lety. I fod yn gymwys a chael y gostyngiad llety, rhaid i chi wneud cais am lety yn Llys Morgannwg. Byddwch yn cael cynnig ystafell sengl. Rhaid i chi fod wedi derbyn y cynnig ac ymrwymo i gytundeb llety'r Brifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 erbyn unrhyw ddyddiad cau gaiff ei gyfleu i chi. Bydd y llety yn dal i fod yn amodol ar gwblhau proses llety'r Brifysgol, a thelerau'r cytundeb llety.

Nid yw'r gostyngiad llety o £1,500 yn daliad arian parod ac ni ellir ei gyfnewid, ei drosglwyddo na'i ad-dalu. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel credyd yn erbyn y ffioedd llety sy'n daladwy o dan eich cytundeb llety ar gyfer eich blwyddyn gyntaf o astudio yn unig. Bydd y gostyngiad fel arfer yn cael ei weithredu ar ffurf tri rhandaliad o £500 yr un, yn erbyn y ffioedd llety sy'n daladwy ar gyfer y tri thymor academaidd.

Rydych yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu'r holl ffioedd llety a symiau eraill sy'n ddyledus o dan y cytundeb llety ar ôl i'r gostyngiad gael ei gymhwyso. Mae'r cytundeb llety, Rheoliadau’r Neuaddau Preswyl ac unrhyw ofynion talu perthnasol yn parhau i fod yn berthnasol yn llawn. Nid yw'r gostyngiad yn amrywio nac yn hepgor unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan y cytundeb llety.

Gall y Brifysgol atal, lleihau, canslo neu adennill unrhyw randaliadau disgownt, gan gynnwys unrhyw randaliadau yn y dyfodol, yn ôl ei disgresiwn, yn yr amgylchiadau canlynol: Os na fyddwch yn cofrestru, os byddwch yn tynnu'n ôl o'ch cwrs, os na fyddwch bellach yn gymwys, os na fyddwch yn ymrwymo i'r cytundeb llety, os byddwch yn canslo neu'n dod â’ch cytundeb llety i ben, os byddwch yn rhoi'r gorau i feddiannu'r llety neu’n symud i lety nad yw'n gymwys ar gyfer y disgownt, os byddwch yn torri'r cytundeb llety neu Rheoliadau’r Neuaddau Preswyl, neu os byddwch yn methu â pharhau i dalu’r taliadau llety gofynnol.

Os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Telerau ac Amodau hyn a'r cytundeb llety, bydd y cytundeb llety yn cael blaenoriaeth o ran materion yn ymwneud â llety, meddiannaeth, rhent, talu, canslo, tynnu'n ôl ac atebolrwydd am ffioedd llety.

## Yr hyn gaiff pob ymgeisydd cymwys ar ôl cofrestru (buddion gwarantedig)

Bydd pob ymgeisydd cymwys sy'n cofrestru yn derbyn:

**(a) Gliniadur**

Myfyrwyr Busnes a Diwydiannau Creadigol: Apple MacBook (SILVER 8GB / 256GB)
Pob myfyriwr arall: Gliniadur Windows (model, 14" DDR5, 500GB AGC)
Yn cynnwys gwarant 4 blynedd a gefnogir gan wneuthurwr

**(b) Talebau Arlwyo**

Talebau arlwyo PDC gwerth £200 i'w defnyddio mewn unrhyw fan arlwyo ar gampysau'r Brifysgol.

Bydd talebau arlwyo yn cael eu darparu mewn un llyfr talebau yn cynnwys 40 taleb gwerth £2 yr un a 24 taleb gwerth £5 yr un, gyda chyfanswm y gwerth felly yn £200. Bydd y talebau'n ddilys tan 31 Gorffennaf 2027 a gellir eu defnyddio yn lleoliadau arlwyo sy'n cymryd rhan yn y Brifysgol. Ni ellir eu defnyddio mewn lleoliadau sydd o dan ofal Undeb Myfyrwyr PDC. Gellir defnyddio pob taleb unwaith yn unig. Os yw gwerth eich pryniant yn llai na gwerth y daleb, ni roddir unrhyw newid na chredyd.

Dim ond un llyfr o dalebau fydd yn cael ei ddarparu i bob ymgeisydd cymwys. Os bydd y talebau yn cael eu colli, eu dwyn neu eu difrodi y tu hwnt i allu eu defnyddio, cyfrifoldeb y myfyriwr fydd hyn.

Mae'r buddion hyn wedi'u gwarantu ar gyfer myfyrwyr cofrestredig cymwys ac ni ellir eu cyfnewid am arian parod neu opsiynau eraill.

### Sut i gael eich gliniadur a'ch talebau

Os ydych chi'n gymwys ac yn cofrestru yn y Brifysgol:

- Byddwch yn derbyn gwybodaeth ar ôl cofrestru yn esbonio sut i gasglu neu gael mynediad at eich gliniadur a'ch talebau;
- bydd gliniadur yn cael ei ryddhau i chi ar ôl y broses cofrestru a gwirio hunaniaeth;
- Bydd talebau arlwyo yn cael eu darparu i'w defnyddio ar gampws.

Bydd manylion lleoliad ac amser y casglu yn cael eu cyfleu'n uniongyrchol i chi drwy eich cyfeiriad e-bost myfyriwr ar ôl i chi gofrestru.

### 5. Amodau pwysig i fod yn ymwybodol ohonynt

Nid yw'r buddion yn drosglwyddadwy ac nid oes ganddynt unrhyw werth arian parod neu fargeinio ar gyfer opsiynau eraill

- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddarparu eitemau gwahanol i'r rhai a nodwyd yn wreiddiol, fydd o werth cyfartal neu uwch, mewn amgylchiadau y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol, fel materion cyflenwi neu pan nad yw'r nwyddau a nodwyd yn wreiddiol bellach yn cael eu cynhyrchu.
- Rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio â holl bolisïau perthnasol y Brifysgol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad Myfyrwyr, wrth ddefnyddio eitemau a ddarperir.

Ni all trydydd parti hawlio'r buddion ar eich rhan.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb os byddwch yn methu â manteisio ar y buddion (er enghraifft os byddwch yn penderfynu peidio â dewis llety yn Llys Morgannwg).

### 6. Tynnu'n ôl neu beidio â chofrestru

Os na fyddwch yn cofrestru, ni fyddwch yn derbyn y buddion gwarantedig ac ni fyddwch yn gymwys i gael y gostyngiad llety.

### 7. Cyfyngu ar atebolrwydd

I'r graddau y caniateir gan y gyfraith, ni fydd y Brifysgol, ei hasiantau neu ddosbarthwyr mewn unrhyw amgylchiadau yn gyfrifol nac yn atebol i ddigolledu unrhyw ymgeisydd neu drydydd parti ac eithrio mewn achos o anaf personol neu farwolaeth yn deillio'n uniongyrchol o esgeulustod, twyll neu gamliwio twyllodrus y Brifysgol, neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio neu ei gyfyngu'n gyfreithlon. Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.

### 8. Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio

Bydd gwybodaeth bersonol a roddwch fel rhan o'ch cais a'ch cofrestriad yn cael ei defnyddio gan y Brifysgol i weinyddu'r Pecyn Clirio, gan gynnwys gwirio cymhwysedd, gweinyddu'r gostyngiad llety, cysylltu ag ymgeiswyr cymwys, dyfarnu a chyflwyno buddion, ac ymateb i ymholiadau cysylltiedig. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n unol â hysbysiadau preifatrwydd perthnasol y Brifysgol (yr Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol neu'r hysbysiadau preifatrwydd cyffredinol: Hysbysiadau Preifatrwydd a Defnyddio Gwybodaeth Bersonol | Prifysgol De Cymru).

### 9. Beth i'w wneud os oes gennych gwestiwn

Os ydych chi'n credu eich bod yn gymwys ar gyfer y Pecyn Clirio ond heb dderbyn cadarnhad na'r wybodaeth berthnasol, dylech gysylltu â'r Brifysgol gan ddefnyddio'r manylion isod.

Bydd y Brifysgol yn adolygu eich cymhwysedd yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd yn eich cais ac yng nghofnod eich cofrestriad.

Gwneir penderfyniadau ar gymhwysedd yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn.

Os oes gennych ymholiadau am y Pecyn Clirio hwn, gan gynnwys cymhwysedd, buddion, neu sut i hawlio buddion, cysylltwch â'r Tîm Ymholiadau a Derbyniadau trwy enquiries@southwales.ac.uk

### 10. Cyffredinol

- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddileu, atal, canslo neu ddiwygio neu dynnu'r Pecyn Clirio yn ôl lle bo angen oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.
- Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a'r Brifysgol ac rydych chi'n cytuno i ddefnyddio llysoedd Cymru a Lloegr yn unig.

Os bydd unrhyw anghydfod, mae penderfyniad y Brifysgol yn derfynol.  Nid yw hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol nac unrhyw hawl i godi cwyn o dan weithdrefnau perthnasol y Brifysgol.